“Onid yw’n ysgrifenedig: ‘Gelwir fy nhŷ i yn dŷ gweddi i’r holl genhedloedd, ond yr ydych chwi wedi ei wneud yn ogof lladron’?”
(Marc 11:17)

Dyma’r Arglwydd Iesu yn troi tu min am unwaith. Dyma enghraifft o’i sêl dros ogoniant Duw a thros bobl oedd yn cael eu twyllo a’u camddefnyddio. Mae’n chwalu unrhyw ddarlun o Grist gwanllyd a siwgwrllyd. Mae’n dangos fod ganddo deimladau cryfion iawn dros y pethau sydd yn wir bwysig.

Y sefyllfa

Y gair am ‘deml’ yn adn. 15 yw ‘hieron’, sef llysoedd allanol y deml. Roedd y deml gyfan yn ymestyn dros dri deg acer. Roedd hyn yn cynnwys y llysoedd allanol, sef Llys y Cenhedloedd, Llys y Gwragedd, Llys yr Israeliaid a Llys yr Offeiriaid. Oddi mewn i Lys yr Offeiriaid roedd adeilad y deml ei hun, ac oddi mewn i’r deml yr oedd y cysegr sancteiddiaf. Yn Llys y Cenhedloedd mae’r hanes yma’n digwydd.

Wrth i Iesu ddod i’r ardal eang yma, cafodd ei wynebu â marchnad, lle’r oedd byrddau cyfnewid arian a byrddau gwerthu colomennod.

Cyfnewid arian

Wrth ddod i ddathlu gŵyl y Pasg, roedd raid i bob Iddew dalu treth flynyddol o hanner sicl. Hefyd, roedd raid talu’r dreth gydag arian arbennig, sef sicl y cysegr. Felly, pan oedd pererinion yn dod i addoli ac i dalu eu treth, roedd angen newid eu harian nhw. Ond roedd raid talu ffi am gyfnewid arian a allai fod i fyny at hanner cyflog diwrnod. Dyma system annheg, yn cymryd mantais ar addolwyr Iddewig.

Byrddau gwerthu

Yna roedd angen offrymau ar gyfer yr addoliad. Yr offrymau mwyaf cyffredin oedd colomennod, ac roedd byrddau yn gwerthu’r rhain am bris uwch na phris y ddinas. Pan oedd pobl yn prynu colomennod y tu allan, roedd archwilwyr y deml yn siŵr o weld rhywbeth o’i le arnynt a’u gwrthod. Felly, y ffordd ddiogel o gael colomen dderbyniol oedd trwy ei phrynu wrth y byrddau.

Cludo

Fe ddarllenwn hefyd am Iesu’n gwrthod i bobl gludo dim trwy’r deml. Oherwydd bod pyrth bob ochr i Lys y Cenhedloedd, roedd pobl wedi dod i’w ddefnyddio fel llwybr i groesi o un ochr i’r ddinas i’r llall, heb fynd heibio’r deml. Ond roedd

y Mishna, sef Cyfraith yr Athrawon, yn gwahardd hyn: *'Pa barch sy'n ddyledus i'r deml? Nid oes neb i fynd i fynydd y tŷ â'i ffon, ei esgidiau, ei bwrs, neu â llwch ar ei draed. Boed i neb groesi trwyddi na'i diraddio i fod yn fan poeri.'*

Ac roedd hyn i gyd yn digwydd mewn man oedd wedi ei fwriadu ar gyfer gweddi a pharatoad ar gyfer addoliad!

Ymateb Iesu

Gallwn ddeall yn well, felly, pam roedd Iesu wedi troi'r byrddau a rhwystro pobl rhag mynd trwodd. Yna mae'n dyfynnu'r Ysgrythur, sef Eseia 56.7b: **"oherwydd gelwir fy nhŷ yn dŷ gweddi i'r holl bobloedd".** Baich yr Arglwydd Iesu oedd gweld y deml yn cael ei defnyddio i'w phwrpas priodol.

Tŷ Gweddi

Roedd y deml yn fan cyfarfod rhwng dyn a Duw. Roedd Duw wedi addo yn amser Solomon: **"Bydd fy llygaid yn sylwi a'm clustiau yn gwrando ar y weddi a offrymir yn y lle hwn"** (2 Cron. 7:15). Sut allai pobl geisio Duw yn yr awyrgylch paganaidd oedd yn Llys y Cenhedloedd? Sut allent weddïo ac ymbaratoi i gwrdd â Duw? Roedd ewyllys Duw ar gyfer y deml yn cael ei hanwybyddu, ac roedd pobl yn cael eu hamddifadu o gyfle arbennig, ac roedd hynny yn corddi yng nghalon y Gwaredwr.

Ogof lladron

Mae ail ran y dyfyniad yn dod o Jeremeia 7:11: **"Ai lloches lladron yn eich golwg yw'r tŷ hwn, y gelwir fy enw i arno?"** Mae'r Arglwydd yn rhoi darlun erchyll o'r deml. Byddai pobl yn dychmygu ogofau ar y ffordd rhwng Jerwsalem a Jericho lle'r oedd y lladron yn ymgasglu. Dyma gyhuddiad difrifol yn erbyn y prif offeiriaid a does dim rhyfedd eu bod am ei ladd, gan nad oeddent yn ceisio Duw o ddifrif, a heb brofi gwir edifeirwch.

Cymhwysiad

Beth mae hyn yn dweud wrthym ni heddiw? Mae'n dangos pa mor anfodlon mae Duw gyda phobl sydd yn camddefnyddio 'crefydd' er mwyn diben arall sydd yn nes at eu calon, fel cyfleustra; elw bydol; dyrchafiad, er enghraifft. Mae'n dangos anfodlonrwydd Duw gydag awdurdodau eglwysig sy'n cymryd mantais ar addolwyr. Pwrpas yr Eglwys yw rhoi cyfle i bobl gwrdd â Duw a'i addoli, nid eu blingo.

Gadewch i ni wneud pob ymdrech yn ein heglwysi a'n capeli i ddangos Iesu, y Cyfryngwr rhwng Duw a dynion a chyhoeddi Efengyl y groes sy'n eu cymodi.